WG35.5.236

# CAN

*Er Coffadwriaeth am hen Weinidogion a Diaconiaid y Trefnyddion Calfinaidd, yn Mhontrhydyfferau, Swydd Frycheiniog.*

## GAN JAMES CLEE, TY'R ITHEL.

GODDEFWCH i mi draethu 'nghyffes,
 A mynegu 'ngofid blin,
'Mod i fel aderyn unig,
 Yn y goedwig wrth ei hun ;
Collais fy nghyfeillion anwyl,
 Wedi dechreu taro ma's ;
Dim ond f' hunan a arbedwyd,
 Gan hen gleddyf angeu glas.

Y Seren gyntaf a fachludodd,
 Parodd hynny i mi bo'n ;
Collais hen wr da defnyddiol,
 Yr hawddgarol William Sion :
Teithiodd Dë a Gogledd Cymru,
 Yn ei fywyd lawer gwaith ;
Chwiliai am genhadon cymhwys,
 I gael cario 'mlaen y gwaith.

Yr ail Seren a fachludodd,
 Ydoedd fel rhyw Gomet fawr,
Yn disgleirio trwy'r eglwysi,
 Fel yr haul ar doriad gwawr ;
Dafydd Parry aiddfwyn ffyddlon,
 Eneiniwyd ef a'r Ysbryd Glân,
'R oedd ei weinidogaeth rasol,
 A'i dylanwad megis tân.

X205 319 141

Dyrchai'i lais fel udgorn auredd,
  Ac fe roddai nerthol floedd,
Nes bai pawb o filwyr Seion,
  Yn moliannu Duw ar goedd;
Adref teithiodd yn y goleu,
  'N siriol wedi maddeu'i fai,
A chan waeddi Haleliwia,
  Pan yn gadael ty o glai.

Cefais ergyd trwm iawn etto,
  Roes i 'nghalon ddirfawr lo's,
Collais hen dad doeth a duwiol,
  Mr. Evans gwych o'r Ffos;
'Roedd yn fawr ei sel a'i ofal
  Am yr eglwys ar bob pryd,
Gwnai gynghori pawb yn siriol,
  I was'naethu Duw o hyd.

Yn dra buan wele arall
  Wr yn myned ar eu hol,
Llawen aeth yn llaw ei Brynwr,
  Richard Winston, Esgeirvo'l;
Clywais ef yn gwaeddi'n groyw,
  Yn y cyrddau lawer gwaith,
Am ogoniant trefn y cadw,
  A'r dagrau'n cuddio'i ruddiau llaith.

Dyma angeu'n para etto,
  I wneud rhwysg nes teimlwyf loes,
Dafydd William Sion a gwympodd,
  Y gwrolaf dan y groes;
Pan wnai Dafydd fyn'd i weddi,
  Codai i ryw hwyliau mawr,
I gym'dogaeth wen Calfaria,
  Tynai'r nef yn un a'r llawr.

Dyma saeth angeuol etto,
  Odd'ar fwa angeu'n d'od,
Ac yn disgyn ar Rees Winston,
  Didwyll frawd o uchel glod;

Ffyddlon bu ef yn ei dymor,
  Yn yr eglwys llenwai'i le,
Gan ymdrechu yn wastadol,
  Ddilyn camrau Brenin Ne'.

Cawsom fenthyg cenad gwerthfawr,
  Gan ein Duw i'n harwain 'mla'n,
Ar hyd llwybrau llawnion adfed,
  Llenyrch yr Efengyl lân ;
Lewis Davies—dyna'r gwron,
  Bu'n cyfrannu i ni'n rhâd,
Ond mae heddyw fry yn yfed
  Gwinoedd pêr y Ganan wlad.

Arall etto wnaeth fy ngadael,
  Yma yn y crindir cras ;
O ! Elias, ti ddiengaist,
  Mwy ni'th welir ar y ma's ;
Diflin fuost mewn ffyddlondeb,
  Pwy oedd debyg i ti, pwy ?
'Roedd dy lais fel telyn nefol,
  Pan yn son am farwol glwy'.

Tri brawd arall a wnaeth gwympo
  O dan gleddyf angeu câs,
Rhai fu'n ffyddlon yn y fyddin,
  A rhai glew wrth orsedd gras ;
Rees Price hynaws, Mr. Roderick,
  Daniel Williams gyda hwy ;
Llawer eraill allwn enwi,
  Yn ein plith,—nid ydynt mwy.

'R wyf dan rwymau crybwyll etto,
  Am rymusder angeu du,
Pan wnaeth gwympo yn ddiarbed,
  Ein genethod ieuainc cu,
Y rhai wnaethant ymgysegru
  'U hunain i wasanaeth Duw ;
Nefoedd i mi oedd eu clywed
  Yn moliannu Iesu gwiw.

Sarah Prichard ac Anne Thomas,
 A'r ddwy Eliza Williams hardd,
AcEliza Price hawddgarol,
 Oedd fel blodeu yn yr ardd;
Angeu a anadlodd arnynt,
 Gwywo wnaethant yn y màn;
Beth yw dyn yn llaw yr angeu?
 Dim ond fel glaswelltyn gwàn.

Ffarwel weithian fy nghyfeillion,
 Bydd i minnau yn y màn,
Orphen teithio yr anialwch,
 Er nad ydwyf 'nawr ond gwàn;
Arglwydd grasol dyro gymorth
 I ymdynnu tua'r Nef,
At fy mrodyr a'm chwiorydd,
 Sydd yn canu—IDDO EF.